# Tîm Cymru

## Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda'n gilydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dull **Tîm Cymru** yw bod Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, busnesau a chymunedau ledled Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin yr argyfwng hinsawdd a natur.



**Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd**

**Cynnwys eraill i adeiladu cymorth a chonsensws ledled Cymru**

### Ymunwch â **Thîm Cymru** drwy ymateb i un neu fwy o'r **GALWADAU I WEITHREDU** a/neu **wneud addunned**

#### Galwad 1 Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

Cyflwyno syniadau a thystiolaeth yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru drwy ymgynghoriadau a digwyddiadau ar ddatblygu polisïau ar weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

#### Galwad 2 Annog eich rhwydweithiau

Annog ymgysylltu yn eich gweithle, eich cymuned leol a/neu'ch teulu, yna gwneud ymrwymiad yn ein Hymgyrch Addunedau.

#### Galwad 3 Herio eraill

Herio cyrff cyhoeddus, busnesau, a sefydliadau cymdeithas sifil yn adeiladol i wneud ymrwymiadau drwy ein Hymgyrch Addunedau.

#### Galwad 4 Derbyn gwybodaeth

Cofrestrwch i dderbyn diweddariadau ar weithgarwch ymgysylltu drwy anfon e-bost at ClimateChange@llyw.cymru

### GWNEUD ADDUNED: Cliciwch **yma**.

Dyma rai enghreifftiau o'r addunedau y gallwch eu gwneud.

| **I unigolion...** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dewis ail-ddefnyddio plastig. | Gyrru llai – a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. | Prynu yn lleol ac osgoi gwastraff bwyd. | Dewis cynnyrch sydd ddim yn cynnwys datgoedwigo, neu godi ymwybyddiaeth o effaith datgoedwigo. | Prynu dillad sy'n para a'u trwsio os oes angen, i ymestyn eu hoes. | Diffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. | Ymuno gyda neu ddechrau grŵp cymunedol i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. | Plannu coed neu flodau gwyllt yn eich gardd neu gymuned. | Insiwleiddio eich cartref a phrynu cynnyrch sy'n defnyddio ynni yn effeithlon. |

| **I sefydliadau....** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymrwymo i Sero Net a chyhoeddi cynllun gweithredu. | Annog defnyddio cerbydau carbon isel, teithio llesol neu weithio o bell. | Lleihau gwastraff. | Sicrhau bod gweithrediadau a chadwyni cyflenwi ddim yn datgoedwigo. | Trafod gyda'ch cadwyn gyflenwi i holi sut y maent yn lleihau allyriadau. | Trefnu neu gaffael ynni. adnewyddadwy. | Addysgu pobl a thrafod newid hinsawdd gyda hwy. | Plannu coed ar eich tir. | Sicrhau bod eich adeiladau, cerbydau ac offer yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. |

Gweler ein Haddunedau a'n Hastudiaethau Achos yn **Cydweithio i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan**

**Byddwn yn dod â Thîm Cymru ynghŷd unwaith y flwyddyn ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru**

**Drwy gydweithio gallwn:**

- **Gyrraedd Sero Net mewn ffordd deg**
- **Mynd i'r afael â newid hinsawdd byd-eang a datgoedwigo**
- **Gwella gallu Cymru i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd**

**Am ragor o wybodaeth edrychwch ar ein cynllun ymgysylltu yma.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44721